

Rhif: WG33907



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Cod Erlyn Llywodraeth Cymru

Rhagfyr 2018

Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r ymatebion a ddaeth i law i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar *God Eryl Llywodraeth Cymru*

Cynulleidfa

Deddfwyr, gweithwyr cyfraith proffesiynol, y farnwriaeth, cyrff y sector cyhoeddus, grwpiau buddiant, y sector gwirfoddol, ac unigolion sydd â diddordeb yn swyddogaethau erlyn Llywodraeth Cymru.

Camau i'w cymryd

Er gwybodaeth yn unig

Rhagor o Wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau ynglŷn â'r ddogfen hon at:

Adran Gwasanaethau Cyfreithiol

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 0300 025 0375

Copïau ychwanegol

Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn:

<http://gov.wales/legislation/justice/welsh-government-prosecution-code/?lang=cy>

Cynnwys

Pennod 1 – Cyflwyniad.....	4
Cynigion.....	4
Ymatebion i'r ymgynghoriad.....	4
Pennod 2 – Dadansoddiad o'r ymatebion.....	5
Ymatebion i'r cwestiynau	5
Atodiad A – Rhestr o'r ymatebwyr	8

Cyflwyniad

Cynigion

1. Ar 24 Mai 2017 cyhoeddwyd *Cod Erlyn Llywodraeth Cymru*¹ at ddibenion ymgynghori cyhoeddus ar wefan Llywodraeth Cymru. Roedd y cyfnod ymgynghori'n para 12 wythnos a daeth i ben ar 16 Awst 2017.
2. Roedd yr ymgynghoriad yn ceisio barn ynghylch cod arfaethedig, *Cod Erlyn Llywodraeth Cymru* ("y Cod"). Diben y Cod yw rhoi arweiniad i Erlynwyr ar yr egwyddorion i'w defnyddio wrth wneud penderfyniadau ynghylch erlyniadau Llywodraeth Cymru.

Ymatebion i'r ymgynghoriad

3. Daeth 102 o ymatebion i law i fersiwn Saesneg dogfen ymgynghori Llywodraeth Cymru, a 2 ymateb i'r fersiwn Gymraeg. Gallai'r ymatebwyr gyflwyno'u barn a'u safbwyntiau ar bapur neu ar-lein, yn Gymraeg neu yn Saesneg.
4. Daeth cyfanswm o chwe ymateb ysgrifenedig i law gan randdeiliaid. O ganlyniad i bwnc trafod yr ymgynghoriad, y rhai sydd â diddordeb mewn erlyniadau a gweithrediad y drefn cyfiawnder troseddol a ymatebodd i'r ymgynghoriad yn bennaf.
5. Ceir crynodeb isod o'r ymatebion i bob cwestiwn. Rhestrir y rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad yn Atodiad A. Mae'r ymatebion unigol i'r ymgynghoriad ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.
6. Rydym yn ddiolchgar i bawb a ymatebodd i'r ymgynghoriad. Mae'r ymatebion yn ffynhonnell werthfawr dros ben o safbwyntiau, gwybodaeth a syniadau sydd wedi llywio fersiwn derfynol y Cod.

Dadansoddiad o'r ymatebion

7. Cyflwynodd nifer o ymatebwyr sylwadau ar adrannau penodol a oedd o ddiddordeb iddynt yn unig, a chyflwynodd eraill sylwadau ar y Cod yn ei gyfanrwydd.

Y sefyllfa gyffredinol

8. At ei gilydd, roedd yr holl ymatebion yn gefnogol i'r cynnig i gyhoeddi Cod Erlyn Llywodraeth Cymru gan y Cwnsler Cyffredinol.

Ymatebion i'r cwestiynau

Cwestiwn 1: A yw swyddogaethau'r Cwnsler Cyffredinol a Gweinidogion Cymru yng nghyswllt erlyniadau Llywodraeth Cymru yn cael eu hesbonio'n ddigon eglur?

9. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno bod swyddogaethau'r Cwnsler Cyffredinol a Gweinidogion Cymru yng nghyswllt erlyniadau Llywodraeth Cymru yn cael eu hesbonio'n eglur. Awgrymodd un o'r ymatebwyr y byddai'n croesawu mwy o eglurder ynghylch cymhwyso'r Cod yng nghyswllt erlynwyr preifat.

Cwestiwn 2: A yw cam 'tystiolaeth ddigonol' y Prawf Erlyn yn cael ei esbonio'n ddigon eglur?

10. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o'r farn bod y Prawf Erlyn yn cael ei esbonio'n eglur. Dywedodd un o'r ymatebwyr y gallai fod yn dda o beth ychwanegu bod y prawf dystiolaeth yn y Cod yn wahanol i'r un a gymhwysir gan y llysoedd troseddol.

Cwestiwn 3: A yw cam 'budd y cyhoedd' y Prawf Erlyn yn cael ei esbonio'n ddigon eglur?

11. O'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn hwn, cadarnhaodd pob un fod cam budd y cyhoedd y Prawf Erlyn yn cael ei esbonio'n eglur. Er hynny, nododd un o'r ymatebwyr nad yw'r rhan hon o'r Cod yn cyfeirio at feusrwydd nac at iechyd corfforol na meddyliol y sawl a ddrwgdybir, ond nododd hefyd na fwriedir i hon fod yn rhestr gyflawn o'r ffactorau.

Cwestiwn 4: A yw ffactorau budd y cyhoedd yn cael eu hesbonio'n ddigon eglur?

12. Roedd consensws eang fod ffactorau budd y cyhoedd yn cael eu hesbonio'n eglur yn y Cod. Croesawyd y gydnabyddiaeth i 'Egwyddorion Cyffredinol Erlyniadau' hefyd, ynghyd â'r ffaith y dylai erlynwyr roi sylw dyledus i ofynion Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.
13. Roedd y sylwadau ychwanegol a ddaeth i law yn cynnwys:
 - a. Roedd un o'r ymatebwyr o'r farn nad yw'r Cod drafft yn rhoi arweiniad digonol ynghylch rhoi ystyriaeth i gyfrifoldebau gofalu sylfaenol wrth gymhwyso ffactorau budd y cyhoedd, ac yn fwyaf arbennig yn yr adran sy'n trafod 'amgylchiadau'r sawl a ddrwgdybir'.
 - b. Holodd ail ymatebydd hefyd a fyddai'r rhestr o ffactorau i'w hystyried wrth benderfynu ar fudd y cyhoedd (ym mharagraff 18 y Cod Drafft) yn bodloni nod y Cod yn ddigonol, ac ystyried ystod y swyddogaethau erlyn sydd gan Lywodraeth Cymru.
 - c. Awgrymodd un arall o'r ymatebwyr y gallai fod yn dda o beth ychwanegu ei bod yn bosib y gallai un ffactor budd y cyhoedd ar ei ben ei hun fod yn drech na nifer o ffactorau sy'n tueddu tua'r cyfeiriad arall.

Cwestiwn 5: A yw'r berthynas rhwng y Cod a'r Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron yn cael ei hesbonio'n ddigon eglur?

14. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o'r farn bod y berthynas rhwng y Cod a'r Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron yn cael ei hesbonio'n eglur. Er hynny, nodwyd ei bod yn bosib na fyddai pawb yn deall yr esboniad yn iawn (yn enwedig y rhai nad ydynt yn gyfreithwyr) ac y gallai fod yn dda o beth cynnwys esboniad sy'n haws ei ddeall.

Cwestiwn 6: A oes unrhyw ran o'r Cod a ddylai gael ei ehangu yn eich barn chi, ac os felly, beth ddylai gael ei gynnwys yno?

15. Cyflwynwyd amrywiaeth o safbwyntiau wrth ymateb i'r cwestiwn hwn, gan gynnwys:
 - a. dywedodd un o'r ymatebwyr fod y disgrisiwn a roddir i erlynwyr wrth ddefnyddio'r 'prawf erlyn' yn dda o beth ac, mewn achosion priodol, y "*gall fod yn briodol er budd y cyhoedd cynnig i'r troseddwr y gellid ymdrin â'r mater drwy roi Rhybudd Syml yn lle dwyn erlyniad*";
 - b. roedd un arall o'r ymatebwyr am weld y testun yng nghyswllt lleoliad y treial yn cael ei ehangu er mwyn esbonio ymhellach natur (a nodweddion) gwahanol y llys ieuencid, ac roedd hefyd am weld testun yn cael ei gynnwys

yn nodi na ddylai pobl ifanc gael eu rhoi ar brawf yn Llys y Goron pan fo modd osgoi hynny.

Cwestiwn 7: Hoffem gael eich barn ar yr effaith y byddai'r Cod yn ei chael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar:

- i. gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac*
- ii. ar beidio â thrin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.*

Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut allai effeithiau cadarnhaol gael eu cynyddu, neu liniaru effeithiau negyddol?

Cwestiwn 8: Esboniwch hefyd, os gwelwch yn dda, sut yn eich barn chi y gallai'r Cod arfaethedig gael ei lunio neu ei newid er mwyn iddo:

- i. gael effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg ac ar beidio â thrin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a*
- ii. dim effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg ac ar beidio â thrin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.*

16. Roedd un o'r ymatebwyr o'r farn ei bod yn anodd rhagweld unrhyw effeithiau cadarnhaol o ran darparu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg gan nad yw'r Cod yn rhoi unrhyw arweiniad ynghylch defnyddio'r Gymraeg.
17. Awgrymodd yr ymatebydd hefyd y gallai'r Cod ei gwneud yn glir y gellir cynnal erlyniadau gan ddefnyddio'r Gymraeg.

Cwestiwn 9: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y gofod hwn i'w nodi, os gwelwch yn dda:

18. Cyfeiriodd un o'r ymatebwyr at y modd y defnyddir "rhaid" (*must*) a "dylai" (*should*) yn y Cod.

Atodiad A – Rhestr o’r ymatebwyr

Enw’r ymatebydd	Enw’r sefydliad
-	Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
-	Gwasanaeth Erlyn y Goron
Kay Powell	Cymdeithas y Cyfreithwyr, Cymru
Claire Lawson	RSPCA Cymru
Darren Trollope	Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid
Thomas Guiney	Yr Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai